# *Addysgeg o gymharu â pherfformiad wrth addysgu cerddoriaeth yn y dosbarth cynradd: Gwersi o 'orffennol defnyddiadwy' yng Nghymru*

YR ATHRO GARY BEAUCHAMP A THOMAS BREEZE
*Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd*

## CRYNODEB ACADEMAIDD

Ers dyddiau cynharaf cerddoriaeth yn ysgolion cynradd (elfennol) Cymru a Lloegr, gwelwyd pwysau i roi'r gallu i blant i berfformio cerddoriaeth. Sicrhaodd dylanwad cynnar yr Eglwys sefydledig, a'r gwerth ynghlwm wrth allu i berfformio'n gerddorol fel rhan o ddyheadau diwylliannol neu dreftadaeth ganfyddedig, fod athrawon yn cael eu barnu ar eu gallu i berfformio cerddoriaeth, ac yn eu tro yn dysgu eu disgyblion i wneud yr un peth. Yn wir, trwy gydol deddfwriaeth olynol a chynnydd y proffesiwn addysgu i statws graddedig, mae athrawon ysgolion cynradd wedi cael eu barnu ar eu gallu canfyddedig i berfformio cerddoriaeth eu hunain yn hytrach nag ar eu gallu addysgegol i'w ddysgu. Arweiniodd hyn at sefyllfa lle'r oedd agweddau eraill ar gerddoroldeb yn cael eu hanwybyddu i bob pwrpas, a chyfleoedd i ddatblygu addysgeg amgen, yn seiliedig ar ystod ehangach o sgiliau a diddordebau cerddorol, wedi cael eu hesgeuluso gan lunwyr polisi olynol. Gyda chysyniadu ehangach o gerddoriaeth yn cael ei ragweld yn y Cwricwlwm i Gymru newydd, y ddadl yw bod modd dysgu gwersi o 'orffennol defnyddiadwy' a fyddai'n galluogi athrawon ysgolion cynradd i ddatblygu dulliau addysgegol newydd. Byddai hynny wedyn yn caniatáu iddynt ymateb i blant mewn modd gwybodus, artistig a cherddorol sensitif, yn hytrach na bod angen iddynt feddu ar 'sgiliau' cerddorol penodol.

*https://doi.org/10.16922/wje.24.2.6cym*

## CRYNODEB YMARFEROL

Mae'r erthygl hon yn ystyried hanes addysgu cerddoriaeth yng Nghymru o'i wreiddiau cynharaf dan ddylanwad yr eglwys, trwy gyflwyno cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth wedi 1988, hyd heddiw a chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'n amlinellu materion sy'n nodweddiadol o'r pwnc, gan gynnwys y pwysigrwydd anghymesur a roddwyd ar berfformiad canu ym mlynyddoedd cynnar yr 20fed ganrif, a'r ddadl gadarn i gyd-fynd â chreu'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar ôl 1988. Ystyrir dylanwad penodol treftadaeth gerddorol Cymru, a chyda chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, mae'r erthygl yn atgof amserol i ymarferwyr am bwysigrwydd cadw eu gallu fel cerddorion ar wahân i'w gallu fel athrawon cerdd. Wrth gychwyn ar ddiwygio addysgol mawr, mae'n amserol ystyried natur a hanes pwnc, ac wrth wneud hynny mae'r erthygl hon yn annog ymarferwyr cynradd yn enwedig i roi amheuon am eu gallu cerddorol eu hunain o'r neilltu, a chroesawu'r cyfleoedd y mae'r Cwricwlwm i Gymru yn eu cynnig i greu profiadau cerddorol dilys ac atyniadol i'w disgyblion.

**Geiriau allweddol:** cynradd, Cymru, addysgu cerddoriaeth

Wrth amlinellu gorffennol defnyddiadwy ar gyfer addysgu cerddoriaeth, mae Cox (1999) yn herio darllenwyr i ymgysylltu â phryderon gwirioneddol yn ystafell ddosbarth cerddoriaeth. Mae diffyg hyder athrawon ysgolion cynradd (elfennol) wrth addysgu cerddoriaeth yng Nghymru a Lloegr yn un pryder o'r fath ers tro byd (e.e., Mills, 1989; Gifford, 1993; Kneen et al., 2020) ac mae anallu llunwyr polisi i wella'r sefyllfa hon yn sylweddol yn gofyn am sylw manwl. Mae gwreiddiau'r sefyllfa hon yn natblygiad hanesyddol cerddoriaeth fel pwnc ysgol, gan arwain at gysyniadaeth swyddogol gul o gerddoriaeth a oedd yn canolbwyntio ar allu athrawon a'u disgyblion i ddysgu a pherfformio – am ran sylweddol o'r ugeinfed ganrif, roedd perfformio'n golygu gallu canu repertoire cyfyngedig o ddarnau – yn hytrach nag ystod ehangach o sgiliau cerddorol. O ganlyniad, roedd y farn am athrawon yn adlewyrchu'r uniongrededd cyffredin hwn, ac roeddent yn cael eu barnu nid ar eu gallu addysgegol cerddorol (eu gallu i *addysgu'r* pwnc), ond ar eu gallu 'cerddorol' eu hunain (eu gallu i *berfformio* cerddoriaeth), gan adlewyrchu goruchafiaeth y patrwm perfformio cerddorol (Ward, 1993, t. 25).

Parhaodd yr oruchafiaeth hon nes datblygu'r Cwricwlwm Cenedlaethol cyntaf ar gyfer Cymru a Lloegr (a oedd yn rhagnodi beth ddylai gael ei ddysgu ym mhob pwnc) yn Neddf Diwygio Addysg 1988. Mae'r sgiliau cerddorol ehangach hyn, megis y gallu i gyfansoddi, trefnu a thrafod cerddoriaeth o amrywiaeth o arddulliau, diwylliannau a chyfnodau hanesyddol mewn modd gwybodus – a oedd yn cael eu diffinio yng Nghwricwla Cenedlaethol Lloegr (DFEE/QCA, 1999) a Chymru (ACCAC, 2000) ar y pryd fel perfformio, cyfansoddi ac arfarnu [fel trafodaeth wybodus ar gerddoriaeth gan gynnwys y gallu i adnabod a labelu'r elfennau cerddorol, fel cywair, soniaredd, ansawdd a rhythm]). Fodd bynnag, roedd dadlau ynghylch y cyflawniad hwn hyd yn oed, a chafodd ei herio yn Lloegr ar y pryd gan adferwyr diwylliannol (Ball, 1995), gyda'r canlyniad fod cwricwlwm Lloegr wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu mwy o bwyslais ar *wybodaeth* am gerddoriaeth. Yng Nghymru, mabwysiadwyd y model ehangach o gerddoriaeth fel pwnc ymarferol, gydag ychwanegiadau i adlewyrchu ei gyd-destun daearyddol er mwyn sicrhau bod diwylliant cerddorol Cymru yn cael ei adlewyrchu yn y ddogfen (Rainbow gyda Cox, 2006).

Cyn yr ymwahanu hwn, a hwyluswyd yn y pen draw gan ddatganoli pwerau perthnasol, arweiniodd unffurfedd addysg Gymraeg a Saesneg trwy gydol y rhan fwyaf o'r ugeinfed ganrif at gydblethu'r dimensiwn addysgol Cymreig penodol nes nad oedd yn bodoli (Jones, 1997, t. 2). O'r herwydd, mae pob cyfeiriad isod i'r cyfnod cyn cyflwyno pwerau datganoledig ym 1999 yn berthnasol i'r ddwy wlad. Roedd hyn er gwaetha'r ffaith fod cerddoriaeth yng Nghymru – ac mae'n dal i fod – yn rhan o'r hunaniaeth genedlaethol i'r fath raddau fel ei fod yn cael ei ystyried yn drydedd iaith Cymru (Walford Davies, 1923). Yn wir, mae'n destun parch gan lywodraethwyr a'r rhai sy'n cael eu llywodraethu, gyda'r cwricwlwm cerddoriaeth wedi cael ei fframio gan y bobl, ac er mwyn y bobl (Beauchamp, 2003, t. 134).

Er mwyn gweld sut y datblygodd y sefyllfa hon, mae angen olrhain datblygiad cerddoriaeth yn y system addysg a hyfforddi athrawon ysgolion cynradd. Mae'n hanfodol ystyried y cyd-destun daearyddol a chymdeithasol hefyd, gan fod Cox (1999) yn dangos bod dylanwad dosbarth a diwylliant yn anochel yn effeithio ar weithredu a dehongli digwyddiadau dilynol yn hanes addysgu cerddoriaeth yn y gwahanol wledydd sy'n ffurfio'r DU. Yn wir, rhaid archwilio unrhyw gwricwlwm sy'n dilyn yng nghyd-destun yr hunaniaeth genedlaethol gysylltiedig (Lowe, 1999).

## *Dechrau addysg gynradd yng Nghymru*

Yng Nghymru, nid oedd gwreiddiau addysg ar gyfer plant oed cynradd yn llewyrchus iawn. Y crynodeb swyddogol o addysg yng Nghymru ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd mai ar y cyfan, prin iawn oedd y ddarpariaeth ar gyfer addysgu'r rhan fwyaf o blant Cymru ym 1800, a bod y ddarpariaeth a oedd yn bodoli yn wael iawn o ran ansawdd fel arfer (Adran Gymraeg y Weinyddiaeth Addysg, 1948, t. 6). Dilynwyd hyn, fodd bynnag, gan ddatblygiad cyson a thaer o ran addysg elfennol gyfundrefnol (Watson, 1923, t. 109). Arweiniodd twf ysgolion elfennol i addysgu plant yng Nghymru a Lloegr er mwyn diwallu anghenion llafur cymdeithas ddiwydiannol newydd ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (Thomas, 1990a, t. 1), at symud tuag at ddull systematig o hyfforddi athrawon, a osododd sylfaen ar gyfer y llwybr llawer diweddarach i raddedigion i fyd addysgu. Yn wir, yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwelwyd twf digyffelyb ym maes addysg athrawon cyfundrefnol. Y grym pennaf ym myd addysg ar y pryd oedd crefydd, ac roedd yn gyfnod pan oedd addysg a chrefydd cyfundrefnol wedi'u cysylltu mewn ffordd anwahanadwy (Williams, 1920, t. 61). Roedd ymwneud yr Eglwys sefydledig ac anghydffurfiol yng Nghymru a Lloegr yn mynd i gael effaith ddofn ar natur addysg athrawon a disgyblion yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn enwedig o ran cyflwyno ac esblygiad cerddoriaeth fel pwnc yn y cwricwlwm ysgol. Roedd cyfraniad yr Eglwys, yn fwy nag unrhyw gorff arall efallai, wrth wraidd sicrhau goruchafiaeth perfformiad cerddorol dros agweddau eraill ar gerddoriaeth. I'r Eglwys, roedd cerddoriaeth yn cynnig ffordd o ddatblygu caniadaeth y cysegr (heb anwybyddu ei photensial ar gyfer hyrwyddo a rheoli moesoldeb), a thyfodd canu'n elfen bennaf addysg 'gerddorol' plant. Cafodd hyn ganlyniadau hirhoedlog ar hyfforddi athrawon, gyda pherfformiad cerddorol yn dod yn ffon fesur ar gyfer asesu athrawon a disgyblion.

Roedd y grant llywodraeth cyntaf ar gyfer addysg elfennol yng Nghymru a Lloegr ym 1833 yn arwydd o ddatblygiad pwysig mewn agweddau tuag at addysg. Yn yr un flwyddyn dylanwadodd ar gyhoeddi'r traethawd cyntaf yn Lloegr i ymdrin yn gyfan gwbl ag addysgu cerddoriaeth, yn hytrach na cherddoriaeth *offerynnol* yn unig, mewn ysgolion. Er gwaethaf yr is-deitl *Chiefly with a View to Psalmody,* roedd *Manual of Instruction in Vocal Music* John Turner, a dau gyhoeddiad arall am gerddoriaeth mewn ysgolion yn ystod y tair blynedd ganlynol, yn arwydd o symud oddi wrth y canfyddiad o gerddoriaeth fel ffordd o hybu addoli a thuag at ymwybyddiaeth

gynyddol o'i defnydd ehangach mewn addysg boblogaidd (Rainbow, 1967). Er yn dal yn bell o'r canfyddiad modern o addysgu cerddoriaeth, roedd proses wedi dechrau a sefydlodd gerddoriaeth yng nghwricwlwm ysgolion dros y deng mlynedd ar hugain nesaf. Serch hynny, er gwaethaf ymwybyddiaeth gynyddol o agweddau eraill ar gerddoriaeth, roedd y gweithiau hyn yn adlewyrchu grymoedd cymdeithasol a diwylliannol cyfoes dylanwadol ac yn cynnal yr argraff mai nod addysgu cerddoriaeth oedd cymell y gallu i *berfformio* cerddoriaeth, gyda chanlyniadau anochel ar y gofynion canfyddedig gan athrawon.

Un o'r cyhoeddiadau cyntaf i argymell newid posibl yn y sefyllfa hon, a fyddai'n cyd-fynd mwy â'r syniad modern o addysg fel rhywbeth hanfodol a phleserus, oedd *Singing Master* (1836) gan Edward Hickson. Roedd yn adlewyrchu dylanwad cynyddol delfrydau Pestalozzi ym Mhrydain, trwy hyrwyddo cerddoriaeth er ei fwyn ei hun, ynghyd â'r ddelfryd fod plant yn cael eu hanfon i'r ysgol i'w gwneud yn ddoethach ac yn hapusach. Profodd y dylanwad hwn i fod yn sylweddol, ac ychydig dros hanner can mlynedd yn ddiweddarach mewn anerchiad i Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion – a ddisgrifiwyd gan Marchant Williams (1901, t. 38) fel un o ddwy asiantaeth addysgol Gymraeg fwyaf pwerus yr oes – aeth Miss E. P. Hughes (1896, t. 59) o Goleg Athrawon Caergrawnt mor bell â dweud fod Pestalozzi, ac eraill, wedi pregethu efengyl plentyndod nes i'r byd wrando, ac ymgrymu mewn parch wrth draed plentyn bach.

Er gwaethaf datblygiadau cadarnhaol o'r fath, parhaodd y patrwm perfformio (yn enwedig canu) yn elfen sefydledig o addysg wrth i ganfyddiadau'r llywodraeth o gerddoriaeth aros yn ddigyfnewid. Atgyfnerthwyd hyn wrth gyflwyno'r Cod Diwygiedig gan Robert Lowe ym 1862. Cafodd ei ymestyn i gwmpasu canu ym 1867, gan arwain at y sefyllfa hon:

> In 1870 singing was made virtually a compulsory subject of elementary education in all Board schools, one-sixth of the annual grant being payable only if singing was included in the curriculum. To be eligible for this proportion of the grant the school had to prepare a dozen songs in the course of the year and sing to the inspector those he asked for. The Code of 1882 introduced a grant of sixpence a pupil if the singing was 'by rote' and a shilling if a successful attempt was made to teach the elements of notation. (Y Weinyddiaeth Addysg, 1960, t. 5)

Yn y cyd-destun hwn, nid yw'n syndod y byddai polisi swyddogol o daliadau am ganlyniadau'n sicrhau y byddai perfformiad yn dominyddu 'cerddoriaeth' mewn ysgolion elfennol, gan arwain at gwricwlwm hynod gyfyngedig o ddeuddeg cân. Felly, er i weithgareddau cerddorol penodol

ddod yn rhan sefydledig o fywyd ysgol elfennol, nid oedd unrhyw angen o hyd i blant drafod eu perfformiadau (dim ond arolygwyr oedd yn cael barnu) neu hyd yn oed gyfansoddi eu caneuon eu hunain. O ganlyniad, ychydig iawn o angen oedd i ailedrych ar addysgeg addysgu, oni bai wrth gwrs ei fod yn helpu i addysgu canu'n fwy effeithlon, fel a ddigwyddodd gyda'r mudiad Tonic Sol-ffa. Yn y cyd-destun hwn, ychydig iawn o effaith a gafodd dylanwad cadarnhaol Pestalozzi, er i'r Weinyddiaeth Addysg roi'r clod iddo ef, ynghyd â Froebel a Rousseau, ym 1960 am achub cerddoriaeth ar gyfer yr ysgolion (Y Weinyddiaeth Addysg, 1960, t. 4). Tra'n pwysleisio pwysigrwydd *mwynhau* gweithgareddau cerddorol (canu, yn yr achos hwn), nid oedd unrhyw ddisgwyl o hyd i blant ddeall cerddoriaeth, na hyd yn oed lunio barn am y pwnc.

O ystyried y diddordeb parhaus hwn yn y gallu i berfformio, go brin ei bod yn syndod i'r cyrff arholi cyntaf mewn cerddoriaeth ddatblygu bryd hynny. Ym 1877, safodd dros 1,100 o fyfyrwyr yr arholiadau theori cyntaf a drefnwyd gan Goleg Cerdd Trinity, gyda'r arholiadau ymarferol cyntaf yn cael eu cynnal y flwyddyn ganlynol. Dilynwyd hyn yn fuan gan sefydlu Associated Board of the Royal Schools of Music (ABRSM) ym 1889. Roedd y ddau sefydliad arholi hyn, a chyrff dilynol eraill (gan gynnwys byrddau arholi Tonic Sol-ffa arbenigol a oedd yn adlewyrchu ei ddefnydd eang mewn ysgolion), yn cyflawni'r angen i gydnabod y gallu *perfformio* a oedd yn cael ei ystyried mor werthfawr mewn cymdeithas ar y pryd. Yn fwy cadarnhaol, fodd bynnag, roedd natur genedlaethol, a rhyngwladol yn wir, yr arholiadau hyn yn caniatáu i ymgeiswyr weld cyd-destun i'w gallu. Yn achos Cymru, mae'n bosibl bod y datblygiadau hyn wedi denu darpar ymgeiswyr o Gymru yn nes at werthfawrogiad go iawn o safonau cyffredinol perfformiad ac at ehangder a dyfnder y profiad cerddorol Ewropeaidd (Allsobrook, 2000, t. 4).

Er bod digwyddiadau o'r fath yn dangos arlliw o addysgeg cerddorol ehangach – cyhoeddiad Hickson oedd y cyntaf i gyflwyno canu seciwlar rheolaidd mewn ysgolion elfennol – ni chafodd ei fabwysiadu'n gyffredinol o bell ffordd a ni wnaeth nemor ddim i newid polisi'r llywodraeth. Er hynny, byddai Hickson yn cael dylanwad sylweddol ar ddatblygiadau'r dyfodol, a denodd rai cynghreiriaid pwerus o blaid lle cerddoriaeth yn addysg plant ifanc, ac roedd gan hynny'n potensial i effeithio ar lunwyr polisi swyddogol. Yn wir, bu'n annerch y Gymdeithas Frenhinol ym 1858, a chanlyniad hyn a darlithoedd eraill oedd sefydlu'r *Society for the Encouragement of Vocal music*. Mae'n werth nodi yma mai un o danysgrifwyr y gymdeithas oedd Dr Kay, yn ddiweddarach Syr James Kay-Shuttleworth, gŵr a fyddai'n dylanwadu'n

fawr ar ddyfodol addysgu cerddoriaeth a gŵr y mae gan faes hyfforddi athrawon fwy o ddyled iddo na neb arall (Rich, 1933, t. 50). Yng Nghymru, fe'i disgrifiwyd fel yr arbrofwr addysgol mawr eofn cyntaf yn Lloegr (Watson, 1923, t. 110) ac fel gŵr goleuedig iawn, ymhell o flaen ei amser (Adran Gymraeg y Weinyddiaeth Addysg, 1948, t. 16) - er y gallai'r farn honno fod wedi'i dylanwadu gan ei ymrwymiad i'r Gymraeg mewn ysgolion.

Er gwaethaf cynrychioli cysyniad cyfyngedig o gerddoriaeth, dylai'r angen i ddatblygu sgiliau perfformio plant fod wedi arwain at gerddoriaeth yn ffurfio rhan bwysig o hyfforddiant athrawon. Ond, er bod cerddoriaeth yn cael ei chymryd o ddifri a mwy o amser yn cael ei ddyrannu i'r pwnc (Lynch, 2010, t. 183), gyda myfyrwyr yn cael eu hyfforddi i addysgu canu, a chyfleusterau ar gyfer ymarfer offerynnau gan lawer o golegau erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, nid oedd unrhyw arbenigwyr cerddoriaeth gyda hyfforddiant colegol. Yn wir, nid oedd unrhyw gymwysterau cerddorol arbenigol ar gael i athrawon tan 1887 – ac eithrio'r egin-arholiadau perfformio a oedd yn cael eu cynnig gan y byrddau arholi, fel y nodwyd uchod. Roedd cyflwyno Tystysgrif Cerddoriaeth Athrawon yr Ysgol Tonic Sol-ffa o gymorth, ond nifer cymharol fach o fyfyrwyr a ymgeisiodd am y dystysgrif hon (dim ond 105 o fyfyrwyr o saith coleg a safodd yr arholiad ym 1894) (Dent, 1977) – gyda'r dystysgrif honno yn gyfyngedig i ddysgu canu hyd yn oed.

### *Canrif newydd yn gwawrio – cyfleoedd newydd?*

Wrth i'r ganrif ddirwyn i ben, cafwyd galwadau i roi diwedd ar oruchafiaeth canu, ond y cyfan wnaeth hynny oedd cymell y patrwm perfformio i gyfeiriad arall, sef perfformio offerynnol. Daeth un alwad o'r fath ym 1895, pan amlinellodd Miss E. P. Hughes o Goleg Athrawon Caergrawnt weledigaeth o ddyfodol addysg yng Nghymru, gyda chwricwlwm cyffredinol wedi'i drefnu'n ddoeth, i gynrychioli meysydd astudio penodol lle byddai:

> Music will, of course, be a strong point in our schools, but it will be possible to develop not only vocal music, but instrumental music, and let us not follow England and teach chiefly the piano – an expensive instrument, which cannot easily be carried about, and is not the best for accompanying the human voice. Let us be wiser, and teach many instruments of different kinds. (Hughes, 1896, t. 52)

Er ei bod yn dal i argymell model perfformio, roedd y weledigaeth hon yn symud y tu hwnt i gyfystyredd canu a cherddoriaeth o leiaf, ond roedd yn

dal i fethu â dysgu gwersi o orffennol defnyddiadwy i ymestyn y cysyniad o gerddoriaeth i gynnwys sgiliau cerddorol eraill fel cyfansoddi ac arfarnu.

Un newid yn y polisi swyddogol a allai fod wedi helpu i ehangu addysgu cerddoriaeth oedd tranc pwysau taliadau yn ôl canlyniadau ym 1900. Gallai dileu'r grant penodol ar gyfer canu fod wedi agor y ffordd ar gyfer dehongliad ehangach o gerddoriaeth neu, i'r gwrthwyneb, arwain at dranc llwyr y pwnc wrth i'r pwysau o'r grant ddiflannu. Mewn gwirionedd, ni wireddwyd y naill bosibilrwydd na'r llall. Yn hytrach, crëwyd sefyllfa newydd yn yr ysgolion elfennol tua 1900 lle daeth cerddoriaeth, ar ffurf canu (*School Music Review*, 1900, t. 198) yn rhan o'r cwricwlwm gorfodol. O ganlyniad, os rhywbeth, roedd rheidrwydd dysgu plant i berfformio wedi cynyddu'n awr wrth i'r cymhelliant ariannol dewisol gael ei gryfhau gan rwymedigaeth ddeddfwriaethol. Er bod y grant wedi bod yn gymhelliad i athrawon dosbarth yn ei flynyddoedd cynnar, arweiniodd tranc y Cod at rai newidiadau mewn meddylfryd. Un newid oedd y sylweddoli fod y Cod wedi bod yn

> narrow in its outlook. Its very terminology reflects this. Singing is but a part of music education. By focusing exclusively on singing the Code restricted the development of music as a curriculum subject. (Lynch, 2001, t. 192)

Elfen gynhenid o'r farn gyfyngedig hon ar gerddoriaeth oedd cyfyngiad ar yr un pryd o ran yr angen i archwilio addysgeg addysgu newydd. Eto fyth, gyda diddymu'r Cod, cafodd drws cyfle i ddatblygu adolygiad addysgegol yn seiliedig ar gysyniad diwygiedig o gerddoriaeth ei agor a'i gau ar yr un pryd.

Mewn cyd-destun ehangach, bu twf sylweddol yn y niferoedd a oedd yn mynychu colegau hyfforddi athrawon ar ddechrau'r ganrif newydd hefyd, er mwyn bodloni'r galw cynyddol. Roedd cyfraniad y colegau hyn at hyfforddi athrawon yn cynnig cyfle i ddatblygu a rhannu meddylfryd addysgegol newydd. Ond eto, er gwaethaf cynyddu'r amrywiaeth dilynol o golegau hyfforddi, cadwodd y Bwrdd Addysg afael cadarn ar sefydliadau o'r fath trwy arfer eu rheolaeth ar gyllid. Yn yr amgylchedd hwn, roedden nhw'n cadw rheolaeth dros gynnwys y cyrsiau a oedd yn cael eu haddysgu hefyd ac o ganlyniad, addysgeg addysgu cerddoriaeth pe bai angen. Rhag i hyn gael ei ystyried yn ddehongliad rhy negyddol, cafodd y dylanwad hwn effaith gadarnhaol mewn un cyd-destun, sef cydnabyddiaeth gynyddol fod addysgu mewn ysgol elfennol nid yn unig yn broffesiwn, ond yn broffesiwn *dysgedig*. Yn anffodus, ni wnaeth cam o'r fath ddatrys y ddadl dros gydbwysedd astudiaeth academaidd a hyfforddiant proffesiynol. Byddai hynny'n parhau'n bwnc dadleuol, hyd yn oed ym maes addysg

gyfoes. Mae enghraifft nodweddiadol yn cael ei chynrychioli gan gyfraniad anhysbys 'A Director of Education' anhysbys (1914, t. 480) yn *The Welsh Outlook* ym 1914, a awgrymodd fel a ganlyn:

> In the past it is possible that too much emphasis was laid on practical experience at the expense of scholarship and broad culture, but there seems to be almost a consensus of opinion that at the present moment scholarship is unduly emphasised at the expense of professional skill, with the result that many who pass through our Secondary schools and from thence to the Normal Department of our University Colleges prove lamentable failures in their professional career.

Fodd bynnag, fframiwyd yr ymosodiad hwn gan broblem fwy a amlinellwyd gan gyfrannwr arall yn gynharach yn y flwyddyn, a nododd fod pob rhifyn o *The Welsh Outlook* wedi tynnu sylw at brinder athrawon elfennol cymwys, y cyflogau annigonol a'r diffyg rhagolygon (Dienw, 1914, t. 204). (Mae'r erthygl hon yr un mor ddi-flewyn-ar-dafod wrth grynhoi sefyllfa darlithwyr prifysgol a'u graddfeydd cyflog, gyda dewisiadau amgen yn cynnwys diweirdeb, gwraig gyfoethog, neu ddioddef gwaith arholi yn ystod y gwyliau a thrwy hynny, ambell erthygl i *The Welsh Outlook* (t. 204–5.)

### *Effaith y rhyfeloedd byd*

Yn fuan ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, cyfeiriodd erthygl ddienw (S.H.W, 1920, t. 20–1) yn *The Welsh Outlook* at

> the chaotic state of much of our educational system in Wales, the unnatural and disturbing differences between elementary and secondary and university education, the mistaken policy of attempting to repair the ravages of the past by patch-work designs that inevitably fail to cover our past mistakes.

Arweiniodd safbwyntiau o'r fath at sylweddoliad yng Nghymru bod rhaid ail-drefnu'r holl system addysg er mwyn bodloni amodau a gofynion newydd (Williams, 1920, t. 61) – galwad a gafodd ei hailadrodd yn ddiweddar yng Nghymru, gan arwain at newid sylfaenol yn y system addysg. Un o'r cryfderau canfyddedig i greu sylfaen oedd cynnydd mawr cerddoriaeth Cymru yn gyffredinol yn y blynyddoedd rhwng y ddau ryfel byd. Yn sgil sefydlu Cyngor Cerddoriaeth i Gymru a phenodi Walford Davies yn gyfarwyddwr cyntaf y Cyngor, ac i Gadair Cerddoriaeth Gregynog yn Aberystwyth, roedd y rhagolygon ar gyfer cerddoriaeth yng Nghymru yn

hynod ddisglair a gobeithiol (Roberts, 1920, t. 62). Un agwedd ar y farn hon oedd y canfyddiad fod canu wedi bod yn un o nodweddion gorau gwaith ysgolion elfennol Cymru ers blynyddoedd lawer (ibid.). Er i'r awdur (a oedd yn arolygydd ysgolion) barhau i argymell defnyddio detholiad doeth o gerddoriaeth ar y gramoffon fel ffordd glodwiw o feithrin chwaeth gerddorol, mae dull o'r fath yn anwybyddu'r potensial a oedd yn cael ei gynnig trwy ehangu sgiliau cerddorol mewn ffyrdd eraill. Roedd sefydlu gwerthfawrogi cerddoriaeth (o gorff o waith wedi'i ddiffinio ymlaen llaw) fel addysgeg addysgu, a'r defnydd diweddarach o ddarllediadau radio i gefnogi hyn (ac, wrth gwrs, mwy o ganu), yn adlewyrchu agwedd o'r fath hefyd, gan fethu â gwireddu'r potensial addysgegol cynhenid ynghlwm wrth ganiatáu i ddisgyblion drafod eu chwaeth gerddorol eu hunain, neu chwaeth eu hathrawon o ran hynny.

Daeth cyfle am gynnydd sylweddol o ran datblygu addysgeg addysgu newydd yn y 1920au wrth newid yr enw 'canu' i 'cerddoriaeth' ar amserlenni ysgolion. Yn anffodus, datblygiad cyfyngedig yn unig oedd hyn, gyda phlant yn cael eu dysgu i ysgrifennu alawon syml yn ogystal â'u darllen, a gwrando ar gerddoriaeth yn ogystal â chanu. (Rainbow, 1989, t. 196). Serch hynny, i bob pwrpas roedd cam o'r fath yn cyflwyno'r fframwaith cerddorol sylfaenol o gyfansoddi, perfformio ac arfarnu (er mewn ffurf hynod gyfyngedig) ac yn adlewyrchu bywyd cerddorol y tu allan i ysgolion. Unwaith eto, gallai'r broses hon fod wedi rhoi'r cyfle i adolygu rôl a chynnwys cwricwlwm cerddoriaeth yr ysgol yn sylfaenol, gyda mwy o gysondeb rhwng ysgolion ac effeithiau anochel ar hyfforddi athrawon. Yn anffodus, fodd bynnag, roedd anghyfartaledd o ran ymarfer a diben yn dod i'r amlwg, gan alluogi syniadau newydd i ffynnu, ond gan greu peth dryswch hefyd, a pherygl i ddulliau rhy ragfarnllyd arwain at lynu'n dynn at un dull (Pitts, 2000, t. 23). Yn y cyd-destun hwn, roedd symudiad mwy radical oddi wrth y traddodiad perfformio, a allai hefyd fod wedi dynodi cyfle i ganiatáu i agweddau eraill ar gerddoriaeth (fel cyfansoddi ac arfarnu) ddod yn fwy arwyddocaol wrth asesu a hyfforddi athrawon, yn annhebygol. Yn anffodus, newid mewn enw'n unig fu'r newid semantig o ganu i gerddoriaeth, ac, o ystyried y diffyg arweiniad ac amcanion canolog, llwyddodd i barhau'r traddodiad perfformiad eithafol a'r addysgeg gysylltiedig i bob pwrpas.

Yr hyn oedd yn cymhlethu'r sefyllfa hon oedd bod dewisiadau amgen yn cael eu cynnig gan ffynonellau dylanwadol. Mewn llyfr ym 1926, â'r teitl 'The Musical Outlook in Wales' (ailargraffiadau o erthyglau a gyhoeddwyd gyntaf yn *The Welsh Outlook,* mewn gwirionedd), ceisiodd Walford

Davies ddarlunio gobeithion a diffygion cerddorol yr oes. Daeth un bennod, o'r enw 'Music in Training Colleges and Schools', i'r casgliad canlynol:

> It is said that most great causes can be put into three words; what three words shall we meet here? That children shall hear, understand and make good music is the practical sum of our aim. It is emphatically not enough to sing a daily hymn, to have a few weekly lessons in the mere act of singing or the mere act of reading, and to have an occasional concert. However perfectly these may be done they leave the main issue, namely, the understanding of music itself quite unapproached. (Walford Davies, 1926, t. 52)

Mae'n anffodus iawn felly nad oedd cyd-daro agweddau o'r fath, a newid y teitl o ganu i gerddoriaeth, wedi cael effaith fwy dwys ar addysgeg addysgu cerddoriaeth mewn ysgolion cynradd.

Cymhlethwyd y sefyllfa hon ymhellach gan y ffaith bod ffynonellau cyfoes dylanwadol, megis y Bwrdd Addysg (1933), yn teimlo'n ddigon hyderus i haeru ym 1933 fod athrawon dosbarth yn dioddef o *embaras de richesses* oherwydd bod arloeswyr ym maes cerddoriaeth ysgol (ers 1850) wedi gallu arbrofi, profi damcaniaethau a throi cefn ar hen syniadau poblogaidd a oedd yn esgus bod yn egwyddorion. Yng nghyd-destun yr hyn a drafodwyd uchod, mae'n destun gofid mai dau syniad o'r fath na nodwyd oedd y canfyddiad cul o gerddoriaeth ei hun a'r polisïau â'i cynhaliodd.

Cynigiwyd safbwynt ar gerddoriaeth yn ysgolion Cymru rhwng y ddau ryfel ym 1936, pan gyhoeddwyd *Suggestions for the Teaching of Music*. Gan gynnal is-destun a oedd yn gyffredin i'r holl adroddiadau Cymraeg blaenorol, mae'n cyfeirio at safonau anfoddhaol o ran cyrhaeddiad o ystyried ymateb naturiol y plentyn Cymraeg i gerddoriaeth (Bwrdd Addysg, 1936, t. 3) – er bod y dybiaeth olaf wedi cael ei herio i bob pwrpas gan rai yng Nghymru (Allsobrook, 1987). Rhoddwyd y bai ar ddau brif achos: argraff gyffredinol mai repertoire o ganeuon yw'r cyfan sydd ei angen, gan arwain at ddiffyg o ran cynnydd mewn safonau cyrhaeddiad o ganlyniad; a'r diffyg adnabyddiaeth o ffeithiau sylfaenol y dull Tonic Sol-ffa. Gellid dadlau bod defnydd hirsefydlog Sol-ffa mewn ysgolion yng Nghymru a Lloegr, a hynny heb ei herio i bob pwrpas, yn adlewyrchu ac yn cynnal yr angen i athrawon fod yn berfformwyr eu hunain. Un ffordd o gyflawni nod oedd y dull i raddau helaeth, sef y gallu i ddarllen cerddoriaeth ar yr olwg gyntaf. Cafodd ei farnu ar y maen prawf hwn yn hytrach na'i gerddoroldeb cynhenid, ac, yn fwy perthnasol, y cerddoroldeb a ddatblygai mewn eraill. Fel gyda phob addysgeg perfformio, fodd bynnag, roedd yn anodd iawn, neu

hyd yn oed yn amhosibl efallai, i drosglwyddo'r sgiliau gofynnol i athrawon heb unrhyw gefndir cerddorol o fewn amserlen eu hyfforddiant cychwynnol. O ystyried lefel yr anfodlonrwydd a amlinellwyd uchod, mae'n syndod efallai nad oedd y cyfleoedd a gynigiwyd gan ddulliau addysgeg addysgu eraill haws eu cyflawni'n canolbwyntio ar gyfansoddi, trafod a gwrando (arfarnu) wedi cael eu harchwilio. Roedd llunwyr polisi'n parhau i anwybyddu'r wers bwysig hon, wrth i un adroddiad swyddogol ddilyn un arall.

Yn fuan wedi adroddiad 1936, tarfodd dechrau'r Ail Ryfel Byd ym 1939 yn sylweddol ar niferoedd athrawon dan hyfforddiant ac ar gydbwysedd y rhywiau. Ym mhamffled rhif 2 y Weinyddiaeth Addysg ym 1945, nodwyd:

> not only have 20,000 men teachers been withdrawn from the schools for war service, but during the war the number of men students entering each year upon a course of training has been greatly reduced, and those that have completed a course of training have then gone into the Forces rather than into the schools. The intake of men teachers from the universities has also practically stopped. (Y Weinyddiaeth Addysg, 1945, t. 37)

Unwaith eto, gallai'r sefyllfa hon fod wedi ysgogi ailystyriaeth ddifrifol o ymarfer presennol, ond go brin y byddai'n debygol o ddigwydd mewn gwlad lle'r oedd goresgyniad yn fygythiad.

### *Y blynyddoedd wedi'r rhyfel – dechrau o'r newydd?*

Ar ôl i'r bygythiad hwn fynd heibio, mae'n bosibl mai canlyniad rhesymegol i'r rheidrwydd i gynyddu nifer yr athrawon oedd y byddai diwedd y rhyfel yn Ewrop yn arwydd o ailasesu gwerthoedd mewn cerddoriaeth, cymdeithas ac addysg (Pitts, 2000). Dechreuodd y broses hon gydag Adroddiad McNair, a gyhoeddwyd ym mis Mai 1944 (dri mis cyn i Ddeddf Addysg nodedig yr un flwyddyn dderbyn Cydsyniad Brenhinol). Roedd yr adroddiad yn ymdrin yn gynhwysfawr â chydnabod, cyflenwi a hyfforddi athrawon cynradd, uwchradd ac addysg bellach, yn ogystal ag arweinwyr ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid. Arweiniodd gofynion y Ddeddf Addysg at gyfres o argymhellion pwysig gan bwyllgor McNair. Efallai mai'r argymhelliad unigol pwysicaf oedd hwn: unwaith yr oedd yr argyfwng presennol drosodd, na ddylai'r Bwrdd Addysg gydnabod penodiad unrhyw athro heblaw athrawon cymwys (Bwrdd Addysg, 1944, t. 43) – mae'n siŵr bod hynny wedi'i ddylanwadu gan ddyfarniad damniol y pwyllgor ar

drefniadau presennol ar gyfer cydnabod, hyfforddi a chyflenwi athrawon, wrth eu disgrifio fel anhrefnus ac anaddas ar gyfer anghenion ar y pryd hyd yn oed (Bwrdd Addysg, 1944, t. 18). Un feirniadaeth bwysig oedd y diffyg hyfforddiant cydlynol oherwydd natur wahanol y sefydliadau hyfforddi athrawon. Roedd rhwystrau eraill hefyd, er enghraifft: 'the training college has often to cope with students whose musical training is a distant memory – a form of indulgence ruthlessly discarded in pre-school certificate days. Until this gap is breached the task of the music tutors at the training colleges (and the more recently emergency training colleges) will remain unenviable' (Walters, 1948, t. 78). Pwynt nad yw'n cael ei fynegi yn y testun hwn yw mai cyfeirio at sgiliau perfformio oedd yr hyfforddiant cerddorol a oedd yn cael ei grybwyll. Mae'n nodweddiadol o bopeth a ddigwyddodd cyn hynny nad oedd ymdrechion i bontio'r bwlch unwaith eto yn cynnwys archwilio sgiliau cerddorol eraill darpar athrawon cynradd, a sut i addasu'r rhain i wella addysgeg a hyder athrawon.

Daeth cymhlethdod pellach i'r amlwg pan anghytunodd pwyllgor McNair ynghylch sut i sicrhau integreiddio'r sefydliadau, fesul ardal, a fyddai'n gyfrifol am addysg a hyfforddi athrawon (Bwrdd Addysg, 1944, t. 48). Canlyniad y rhwyg ynghylch yr atebion a gynigiwyd oedd cyhoeddi Cylchlythyr 112, *Organisation of the Training of Teachers,* ym 1946. Yn y ddogfen hon, cafodd prifysgolion wybod y byddai rhywfaint o amrywiaeth o ran trefn yn dderbyniol, ar yr amod y byddai cydweithrediad y colegau hyfforddi unigol ac awdurdodau addysg lleol yn cael ei sicrhau ym mhob achos (Dent, 1977).

Canlyniad y penderfyniad hwn oedd creu dau ar bymtheg o Sefydliadau Hyfforddi Ardal, pedwar wedi'u hariannu'n uniongyrchol gan y Weinyddiaeth Addysg a'r gweddill yn rhannau annatod o brifysgolion neu golegau prifysgol. Pwrpas y sefydliadau hyn oedd gwella ansawdd addysg athrawon a chynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer addysg ar sail ranbarthol (Thomas, 1990b). Maes o law, cododd y nifer hwn i dri ar hugain, gyda phob un ond un yn perthyn i brifysgolion. Fodd bynnag, dylid gwrthbwyso hyn gydag absenoldeb parhaus amcanion canolog a fyddai wedi sicrhau cysondeb o ran nodau hyfforddi. Mae hyn yn bwysig o ran cerddoriaeth, oherwydd gallai fod wedi cynhyrchu cyfres fwy cytbwys o ofynion i fynd i'r afael ag ystod ehangach o sgiliau cerddorol. Unwaith eto, gallai hyn fod wedi arwain at newid amlwg, oddi wrth sgiliau perfformio cerddorol fel gofyniad pennaf i athrawon a disgyblion i ailwerthusiad o sgiliau cerddorol eraill fel sail i ddatblygu addysgeg newydd – a allai yn ei dro fod wedi caniatáu i fwy o athrawon gael eu hystyried yn athrawon

cerddoriaeth effeithiol a hyderus. Fodd bynnag, roedd ailystyriaeth o'r fath yn annhebygol o ddigwydd mewn sefyllfa lle, yng nghyd-destun y cysyniad o gerddoriaeth a oedd yn bodoli, roedd addysgu cerddoriaeth mewn ysgolion yn cael ei ystyried yn foddhaol.

Canlyniad adroddiad McNair oedd dau brif ddiffyg: strwythur y cyrsiau a chefndir cerddorol y myfyrwyr (Simpson, 1962). Yn y ddau sefydliad hyfforddi, amlygodd Simpson (1962) y gwrthdaro rhwng astudiaethau cerddorol ac astudiaethau proffesiynol (addysgegol), a allai fod yn gyfarwydd i addysgwyr addysg gychwynnol heddiw. Mewn rhai sefydliadau, nid oedd y cyrsiau cerddoriaeth yn caniatáu unrhyw ystyriaeth i addysgu cerddoriaeth, gyda'r canlyniad nad oedd rhai myfyrwyr a oedd wedi dewis cerddoriaeth fel pwnc personol yn derbyn unrhyw arweiniad swyddogol gan eu tiwtoriaid cerddoriaeth ynghylch addysgu'r pwnc (Simpson, 1962, t. 163). Gwaethygwyd y sefyllfa gan ganfyddiadau arolwg a gynhaliwyd ym 1957 gan yr Association of Teachers in Colleges and Departments of Education (ATCDE), a oedd yn amlinellu sefyllfa o annigonolrwydd amrywiol dyrys (Simpson, 1962, t. 164).

Cadarnhawyd hyn gan *The Handbook of Suggestions for the consideration of teachers and others concerned in the work of public elementary schools* ym 1946, ac roedd yn crisialu'r agwedd tuag at gerddoriaeth yn y cyfnod cynradd wedi'r rhyfel. Honnodd fod gwerth cerddoriaeth ym mywyd ysgol yn cael ei gydnabod i'r fath raddau bellach fel nad oedd angen ei drafod yn helaeth (Bwrdd Addysg, 1946, t. 174). O ystyried ei oruchafiaeth flaenorol, mae'n ddiddorol bod canu'n cael ei ystyried yn fodd o wneud rhywbeth, nid yn ddiben ynddo'i hun (Bwrdd Addysg, 1946, t. 175). Mae'r 'diben' yn cael ei ddiffinio bellach fel 'ffurfio chwaeth at gerddoriaeth, a dealltwriaeth ohoni', sy'n haws i'w gyflawni ond yr un mor gyfyng. Mae hyn yn atseinio'r farn a fynegwyd gan y Bwrdd Addysg ym 1926 (yn ymwneud ag addysg y glasoed) mai meithrin chwaeth, yn hytrach na sicrhau hyfedredd, ddylai fod yn nod i addysgu cerddoriaeth fel rhan o gwricwlwm yr ysgol (Bwrdd Addysg,1926, t. 238). Gan anwybyddu oblygiadau diwylliannol a gwleidyddol beth yw 'chwaeth' a phwy sy'n penderfynu, gallai dull o'r fath, o'i archwilio ymhellach, fod wedi arwain at sylweddoli nad oedd angen unrhyw sgil perfformio ar ran athrawon o reidrwydd i'w weithredu. Er braidd yn bendefigaidd, roedd ailasesu amcanion a oedd yn rhan annatod o ddull o'r fath yn cynrychioli cyfle arall eto i ailasesu sut y gallai athrawon fod wedi defnyddio sgiliau cerddorol tu hwnt i sgiliau perfformio i addysgu cerddoriaeth yn effeithiol. Yn wyneb datblygiadau cyfoes y cwricwlwm yng Nghymru (byddwn yn dychwelyd at hyn yn ddiweddarach), mae'n

ddiddorol nodi'r potensial ar gyfer addysgu trawsgwricwlaidd mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad sy'n cael ei nodi yn yr haeriad bod dawnsio, ac yn arbennig dawnsio gwerin, wedi dod i gael ei gydnabod fel ffurf bwysig o amgyffred a mynegi cerddoriaeth (Bwrdd Addysg, 1946, t. 205). Ond, unwaith eto, cafodd arloesi posibl ei ddiddymu yn Llawlyfr 1946 gan y rhybudd bod angen condemnio'n hallt unrhyw agwedd newydd ar hyfforddiant cerddorol a oedd yn amharu ar gyfran yr amser a oedd yn cael ei neilltuo ar gyfer canu caneuon a chanu ar yr olwg gyntaf (Bwrdd Addysg, 1946, t. 175).

Fel rhan o ymchwiliad ehangach i'r celfyddydau yn ysgolion Cymru, darparodd adroddiad y Central Advisory Council for Education (Wales) ym 1953, *Music in the Schools of Wales* (Y Weinyddiaeth Addysg a CACE, 1953) asesiad arall o le cerddoriaeth a hyfforddiant athrawon. Dan gadeiryddiaeth Alun Oldfield Davies, roedd y Cyngor yn cytuno'n llwyr ag Atodiad I o Adroddiad McNair 1944, gan argymell ei argymhellion yn wresog, yn enwedig eu heffaith ar Gymru (Y Weinyddiaeth Addysg a CACE, 1953, t. 14). Fodd bynnag, pwynt mwy diddorol yw'r gydnabyddiaeth nad oedd rhai o'r tystion [athrawon] a gafodd eu cyfweld yn arbenigwyr mewn cerddoriaeth, er eu bod wedi ennill clod am eu gwaith rhagorol ym maes cerddoriaeth mewn ysgolion (Y Weinyddiaeth Addysg a CACE, 1953, t. 13). Honnodd yr adroddiad hefyd bod angen hyfforddiant penodol mewn cerddoriaeth ac yn y gallu i'w drosglwyddo mewn ffordd glir (Y Weinyddiaeth Addysg a CACE, 1953, t. 13). Roedd gweld cydnabyddiaeth mewn adroddiad swyddogol bod addysgeg yr un mor bwysig â gallu a gwybodaeth gerddorol eto'n cynnig cyd-destun a allai fod wedi arwain at dderbyn nad oes angen i athrawon fod yn berfformwyr cerddorol medrus i allu dysgu cerddoriaeth yn effeithiol. Ond, yn dilyn yr un duedd ag adroddiadau cynharach, ni chafwyd ymateb deddfwriaethol, na datblygu cynigion amgen hyd yn oed. Yn yr achos hwn, er bod y potensial i ailedrych ar addysgeg yn deillio o gyrff y llywodraeth, ni welwyd unrhyw effaith ar bolisi swyddogol. Unwaith eto, collwyd y cyfle i archwilio cyfeiriadau newydd o ran hyfforddi a dysgu gwersi o orffennol defnyddiadwy.

Hyd yma, mae'n ymddangos nad oedd llawer o fanteision i ddysgu cerddoriaeth yn deillio o Adroddiad McNair. Fodd bynnag, roedd ambell ddatblygiad a fu o gymorth o ran lleddfu'r problemau a amlinellwyd uchod. Daeth un o'r rhai pwysicaf yn sgil ffedereiddio colegau hyfforddi o amgylch y prifysgolion, a arweiniodd at fwy o ysbryd cymunedol ymhlith darlithwyr coleg. Yn ei dro, roedd hynny'n caniatáu rhannu syniadau

rhwng sefydliadau – ffactor sy'n bwysig o hyd ac yn ddylanwadol o bosibl mewn cenedl fach fel Cymru. Ynghyd â gwell cymhwysedd i wasanaethu ar Fyrddau Astudio, dechreuodd darlithwyr chwarae rhan ymarferol iawn yn y gwaith o gynllunio meysydd llafur ac arholiadau yn eu pynciau, yn eu colegau eu hunain a cholegau eraill, a gallai hynny fod wedi arwain at addysgeg newydd ar gyfer addysgu cerddoriaeth. Yn baradocsaidd, tra'n cynnig llawer o gyfleoedd, roedd yr ymreolaeth gynyddol hon yn parhau'r posibilrwydd o ddiffyg cysondeb yn genedlaethol o ran hyfforddi athrawon a niwed posibl i bynciau, megis cerddoriaeth, os oedden nhw'n cael eu hystyried yn llai pwysig ar lefel genedlaethol a lleol.

### *Adroddiadau Plowden a Gittins (1967) – cyfleoedd ar gyfer addysgeg gynradd newydd mewn cerddoriaeth yn mynd a dod (eto)*

Daeth y cyfle arwyddocaol nesaf ar gyfer newid yn Adroddiad Plowden (DES, 1967) yn Lloegr. Roedd y ddadl o blaid dysgu sy'n canolbwyntio ar blant ar draws y cwricwlwm cynradd yn ddylanwadol iawn. Gallai fod wedi cael effaith sylfaenol ar y dull o addysgu cerddoriaeth mewn ysgolion cynradd a hynny yn ei dro wedi caniatáu mwy o botensial i athrawon ddatblygu addysgeg newydd. Tan y cyfnod hwn, nid oedd fawr mwy o werth ar bwysigrwydd safbwyntiau plant am gerddoriaeth nag yn ystod Oes Fictoria, ac nid oeddent yn rhan o ymarfer addysgegol ar y pryd. Dylai'r posibilrwydd o archwilio cerddoriaeth wedi'i sbarduno gan safbwyntiau plant fod wedi bod yn opsiwn gwirioneddol mewn ysgolion cynradd ôl-Plowden, ond ni chafodd ei weithredu yn y cwricwlwm. Roedd yn ymddangos hefyd fod y patrwm perfformio'n dal i ddominyddu, gan arwain at gydnabyddiaeth swyddogol bod rhinweddau cerddorol athrawon yn tueddu i gael eu barnu ar sail eu gallu i gyfarwyddo gweithgareddau corawl o'r fath, a chyfeilio ar y piano (DES, 1967, t. 253).

Yn anffodus, ni wnaeth y gydnabyddiaeth swyddogol hon – nad asesu athrawon ar sail gallu perfformiad offerynnol yn unig oedd y mesur gorau o'u gallu i addysgu cerddoriaeth – arwain at unrhyw newid mewn polisi ym maes addysg athrawon, er bod adroddiad Plowden wedi datgan yn glir mai addysg gerddorol y rhai nad ydynt yn arbenigo sydd wrth wraidd y broblem (DES, 1967, t. 252). Unwaith eto, cyflwynwyd cyfle i'r awdurdodau argymell addysg gerddorol i athrawon (a disgyblion) a oedd yn edrych y tu hwnt i allu perfformio. O ran hyfforddi athrawon, collwyd y cyfle eto i ddatblygu sgiliau a diddordebau cerddorol a chreu addysgeg gerddorol

newydd, yn hytrach nag atgyfnerthu'r ffiniau perfformio presennol – sefyllfa a gafodd ei hefelychu yng Nghymru ar yr un pryd. Fel y nododd Ward (1993, t. 25), mae fel petai Plowden wedi anghofio am gerddoriaeth.

Gyda'r un cylch gorchwyl yn union â Plowden, hefyd ym 1967, cyflwynwyd adroddiad yng Nghymru gan y Central Advisory Council for Education (Wales), dan gadeiryddiaeth yr Athro Charles Gittins. O ran cerddoriaeth, roedd y canfyddiadau'n adleisio canfyddiadau *Suggestions for the Teaching of Music* ym 1936, trwy fynegi pryder am ddiffyg elfen gerddorol gref yn hyfforddiant llawer o ddarpar athrawon (DES a CACE, 1967). Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at oruchafiaeth barhaus y patrwm perfformio trwy nodi sut mae cerddoriaeth yng Nghymru yn cael ei gosod yng nghyd-destun canu (DES a CACE, 1967, t. 359), a bod y gallu i chwarae offeryn yn sicr o fantais i athro (t. 362). Yn galonogol, fodd bynnag, daeth i'r casgliad hefyd fod peth o'r gwaith gorau ar gerddoriaeth yn cael ei gyflawni gan athrawon dosbarth brwd sydd wedi caffael gwybodaeth a chariad at gerddoriaeth, yn hytrach na chan arbenigwyr (DES a CACE, 1967, t. 365). Mae'r gydnabyddiaeth hon – nad gallu perfformio (neu arbenigedd) yw'r unig ffordd o asesu potensial athro i addysgu cerddoriaeth – wedi digwydd eto heb i neb sylwi arni. Rhywbeth arall na sylwyd arno, neu na gafodd ei fabwysiadu o leiaf, oedd yr awgrym craff (o gofio beth sy'n digwydd yng nghwricwlwm Cymru heddiw) y dylai cerddoriaeth berthyn mor agos â phosibl i'r meysydd astudio eraill (DES a CACE, 1967, t. 365). Mae'n bosibl bod hwn yn gyfle arall a gollwyd i'r adroddiad adlewyrchu amgylchiadau arbennig Cymru, a nodwyd gan Anthony Crosland (Ysgrifennydd Gwladol Addysg a Gwyddoniaeth ar y pryd) yn y rhagair i'r adroddiad.

Nid yw hyn yn golygu nad oedd cerddoriaeth yn bwysig yn ysgolion cynradd Cymru. Yn wir, mae'n ddiddorol nodi mai cerddoriaeth a ddewiswyd fel y pwnc cyntaf mewn cyfres o arolygon addysg a baratowyd gan Swyddfa Addysg Cymru ym 1971. Gyda'r bwriad o ymdrin ag agweddau arbenigol ar addysg, *Wales Education Survey No. 1: Music* oedd yr adroddiad swyddogol cyntaf ar gerddoriaeth yng Nghymru ers 1953. Yn anffodus, fodd bynnag, mae'r adroddiad yn parhau i amlinellu'r problemau niferus sy'n dal i godi o ran addysgu cerddoriaeth yn yr ysgol gynradd, yn enwedig goruchafiaeth y patrwm perfformio sy'n gyfarwydd bellach ymhlith athrawon cynradd:

> the more usual criterion applied in appointing a music specialist, even for a large school, is the ability to play the piano. Thus pianists, although their technical skill

> may be very limited … often find themselves "responsible" for teaching music throughout a large school. (Y Swyddfa Gymreig, 1971, t. 10)

Daw'r adroddiad i'r casgliad nad yw'n syndod bod llawer o'r athrawon sy'n gyfrifol am gerddoriaeth mewn ysgolion cynradd yn deall fawr ddim am ddulliau modern o addysgu'r pwnc (Swyddfa Gymreig, 1971, t. 10). Mae'r adroddiad yn priodoli hyn yn bendant i hyd byr y cwrs proffesiynol a chyfyngder ei gynnwys, fel nad yw'n bosibl iddo gynnig sylfaen gadarn i fyfyrwyr ar gyfer addysgu'r pwnc yn y dosbarth (t. 10).

Yr unig ffynhonnell bosibl ar gyfer trawsnewid y sefyllfa hon ar y pryd oedd y sefydliadau hyfforddi athrawon. Roedd diffyg amcanion canolog ym maes hyfforddi athrawon yn sicrhau bod gan golegau fwy o ryddid i ddatblygu dewisiadau amgen ffres wrth hyfforddi graddedigion. Yn anffodus, cafodd y potensial hwn ei ddirymu yn y blynyddoedd canlynol oherwydd ymwahanu ymarfer rhwng Sefydliadau Hyfforddi Ardal, a oedd yn ymddangos yn gwbl amhriodol mewn system genedlaethol (Thomas, 1990b, t. 49). Diolch i anfodlonrwydd cynyddol colegau, a oedd eisiau mwy o gydraddoldeb ac ymreolaeth, a beirniadaeth gan yr ysgolion roeddent yn eu gwasanaethu, daeth colegau hyfforddi athrawon yn destun ymchwiliad gan y Llywodraeth unwaith eto. Amcan yr adroddiad hwn, o dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd James o Rusholme, oedd edrych ar y trefniadau presennol ar gyfer addysgu, hyfforddi a chyfnod prawf athrawon yng Nghymru a Lloegr (DES, 1972, t. 1). Gan ddilyn beth oedd yn batrwm cyfarwydd erbyn hyn, roedd diffyg system hyfforddi sefydlog yn sicrhau parhad addysgeg a pholisi cyfredol ar draul archwilio strategaethau newydd. Anhrefnus yw'r ffordd orau o nodweddu sefyllfa cerddoriaeth ar y pryd, gydag adroddiadau swyddogol hyd yn oed yn euog o fethu â derbyn cyfrifoldeb ar raddfa helaeth. Er enghraifft, nododd *Music in Schools – Education Pamphlet Number 27* yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth (DES, 1969, t. 59–60) ei bod

> beyond the scope of this pamphlet to discuss in detail the training of music teachers. That is the responsibility of the colleges of music, the colleges of education, the area training organisations and universities and of some colleges of further education.

Fodd bynnag, llwyddodd Adroddiad James i chwalu monopoli dyfarnu graddau prifysgolion, ac yn ymarferol, braenarodd y llwybr ar gyfer tranc y Sefydliadau Hyfforddi Ardal, a ddiddymwyd ym 1975. Canlyniad hynny oedd diffyg canllawiau canolog effeithiol o hyd i'r sefydliadau hyfforddi eu

dilyn, nac unrhyw ofynion cyfreithiol o ran cynnwys cyrsiau nac addysgu cerddoriaeth mewn ysgolion. O'r herwydd, roedd cynnwys cyrsiau hyfforddi athrawon yn dal i ddibynnu i raddau helaeth ar sefydliadau unigol, a'u staff. Er y gallai hynny fod yn wir am bynciau eraill ar y cwricwlwm hefyd, gellid dadlau bod cerddoriaeth ac addysgu cerddoriaeth, a oedd eisoes wedi'u nodi fel meysydd problemus, yn sicr o ddioddef mwy na'r rhan fwyaf o bynciau eraill heb gymhelliad deddfwriaeth neu ddehongliad ehangach o gerddoriaeth fel pwnc.

Dyma oedd yr hinsawdd pan gyhoeddwyd Papur Gwyn y Llywodraeth, *Education: A Framework for Expansion,* ym mis Rhagfyr 1972. Roedd y ddogfen hon yn derbyn bod angen cyflawni proffesiwn graddedig i gyd yn gynyddol, wedi'i helpu'n rhannol trwy sefydlu sefydliadau addysg uwch sylweddol yn y sector cyhoeddus, nid prifysgolion yn unig. I'r perwyl hwn, awgrymwyd cwrs tair blynedd newydd wedi'i gynllunio fel ei fod yn arwain at ddyfarnu gradd BEd a statws athro cymwysedig (Papur Gwyn, 1972, t. 21). Gallai canlyniadau'r newidiadau hyn, gyda mwy o amser yn cael ei dreulio yn y coleg, fod wedi sicrhau dyrannu mwy o amser i gerddoriaeth yn ystod y cyfnod hyfforddi. Yn anffodus, heblaw am leiafrif bach iawn o arbenigwyr, y canlyniad oedd bod yr amser a ddyrannwyd i gerddoriaeth wedi gostwng wrth i hyd cyrsiau gynyddu (Simpson, 1962). O ganlyniad, heb unrhyw ofyniad cyfreithiol i addysgu cerddoriaeth, a dim cwricwlwm diffiniedig i'w ddilyn, ni welwyd angen na chymhelliant i ailedrych ar addysgeg neu ymarfer presennol.

## *Y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr – dechrau'r ymwahanu*

Yn y 1980au hwyr, crëwyd cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth yng Nghymru a Lloegr o'r diwedd fel rhan o Ddeddf Diwygio Addysg (*Education Reform Act*, 1988) o dan y Prif Weinidog ar y pryd, Margaret Thatcher. Wrth edrych ar ffurf y cwricwlwm cenedlaethol hwn yn ehangach, mae'n nodedig bod cerddoriaeth yn un o'r pynciau â natur ddiwylliannol benodol a ddewisodd beidio â mabwysiadu'r fersiwn Saesneg a rhoi cwricwlwm penodol i Gymru ar waith yn lle hynny (Smith, 1992; Beauchamp, 1995). Mae crynodeb o'r ddadl frwd, ar ffurf erthyglau golygyddol, datganiadau i'r wasg a llythyrau agored, a ddigwyddodd ar yr un pryd â'r broses o gynllunio cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth, a'r gwahaniaethau a ddaeth i'r amlwg rhwng Cymru a Lloegr, ar gael yn Gammon (2006) a Rainbow gyda Cox (2006). Yn fras, roedd addysgwyr

cerddoriaeth yng Nghymru a Lloegr yn ffafrio cysyniad ymarferol o'r pwnc, gyda disgyblion yn dysgu cerddoriaeth trwy ei wneud (wedi'i ddiffinio fel cyfuniad cyfannol o berfformio, cyfansoddi ac arfarnu), athroniaeth a ddiffiniwyd gan Keith Swanwick (1979; 1988) a'i derbyn heb ei haddasu ar gyfer fersiwn Cymru o'r cwricwlwm (Beauchamp, 1995). Yn y cyfamser, yn Lloegr, roedd lleisiau ceidwadol – grymoedd tywyll, yn ôl Mills (2005, t. 5), gydag ysgrifennu dadleuol Roger Scruton yn un enghraifft – yn honni bod dull o'r fath yn gostwng cerddoriaeth i statws cylch chwarae afreolus lle nad oedd gofyn am unrhyw beth na ellid ei ddysgu ar y stryd y tu allan (Scruton, 1991, t. 19). Arweiniodd y drafodaeth gyhoeddus ddadleuol hon, a ddaeth i benllanw gydag ymyriad i'r Llywodraeth gan Swanwick ei hun (Swanwick, 1992), at gyfaddawd pur anesmwyth (Gammon, 2006, t. 140) rhwng addysgwyr cerddoriaeth 'blaengar' yn Lloegr, ac aelodau mwy ceidwadol y National Curriculum Council a oedd yn cynghori'r ysgrifennydd addysg ar y pryd, Kenneth Clarke. Arweiniodd y cyfaddawd at ddogfen cwricwlwm cerddoriaeth yn Lloegr gyda'i chyfuniad rhyfedd o ymdriniaethau ac amryfal syniadau cymysg yn tystio i'w gwreiddiau cythryblus (Gammon, 2006, t. 144).

### *Grym datganoledig a Chwricwlwm i Gymru newydd*

Ers trafferthion creu Cwricwlwm Cenedlaethol cerddoriaeth ar ddechrau'r 1990au (a wnaeth ymwreiddio cyfansoddi, perfformio ac arfarnu yn y cwricwlwm yng Nghymru), mae Cymru wedi ennill pwerau datganoledig dros ei system addysg. Yn fwy diweddar, cychwynnodd Cymru ar gylch sylweddol o ddiwygio addysg a ysgogwyd gan sioc PISA (Waldow, 2009), cyfres o ganlyniadau gwael ym mhrofion PISA yr OECD yn 2009 a 2012 (Bradshaw et al., 2010; Wheater et al., 2013). Mae'r *Cwricwlwm i Gymru* newydd, sy'n gweithredu 68 o argymhellion adroddiad *Dyfodol Llwyddiannus* (Donaldson, 2015), yn adlewyrchu tueddiadau rhyngwladol y mae Priestley a Biesta yn eu nodweddu fel tro cwricwlaidd newydd (Priestley a Biesta, 2013). Mae'r rhai sy'n cefnogi'r 'tro' hwn yn ystyried bod diffinio cwricwla yn nhermau cymhwysedd trawsnewidiol cyffredinol (OECD, 2018), yn hytrach na rhagnodi cynnwys a sgiliau pwnc penodol, yn ffordd well o fodloni gofynion y pedwerydd chwyldro diwydiannol, Diwydiant 4.0 (Marope, Griffin a Gallagher, 2017). Yn adroddiad Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus* (Donaldson, 2015) mae pedwar 'diben' canolog yn diffinio dyheadau craidd y cwricwlwm ar gyfer dysgwyr. Mae

athrawon sy'n creu a chyflwyno'r cwricwlwm newydd yn cael eu hannog i ddod o hyd i 'gysylltiadau cryf' rhwng disgyblaethau pwnc traddodiadol, er mwyn 'gwella a chryfhau'r dysgu yn y disgyblaethau sydd wedi'u cynnwys', yn ogystal â chaniatáu i ddisgyblion 'drosglwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth rhwng gwahanol gyd-destunau er mwyn delio â phroblemau anghyfarwydd' (Donaldson, 2015, t. 68).

O fewn y Cwricwlwm i Gymru, caiff disgyblaethau pwnc eu dyrannu i chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) gyda'r nod o gyflawni'r 'cysylltiadau cryf' hyn'. Mae MDPh y celfyddydau mynegiannol yn cynnwys cerddoriaeth, ynghyd â drama, celf weledol, dawns, a ffilm a chyfryngau digidol (Llywodraeth Cymru, 2020). Wrth ysgrifennu ar gyfer IBE-UNESCO, galwodd Marope (2013) am gyd-gynllunio cwricwla, gan adael lle ar gyfer dehongli cwricwla, cyd-destunoli a chreadigrwydd ar lefel athrawon ac ystafelloedd dosbarth (Marope, 2013, t. 22). Yn unol â'r athroniaeth hon, derbyniodd athrawon 'arloesi' o leoliadau cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig gyllid gan Lywodraeth Cymru i gyd-lunio'r ddogfen fframwaith ar gyfer y celfyddydau mynegiannol o 2016 ymlaen (Llywodraeth Cymru, 2015). Yn ystod y broses hon, ymateb cychwynnol arbenigwyr cynradd i'r syniad o weithio ar draws disgyblaethau pwnc oedd mynegi diffyg hyder yn eu gwybodaeth pwnc eu hunain, yn enwedig mewn cerddoriaeth (Kneen et al., 2020, t. 268). Mae'r potensial yn bodoli, felly, i arbenigwyr cynradd barhau i fod â diffyg hyder wrth addysgu cerddoriaeth, gan gydasio eu gallu *addysgu* cerddoriaeth a'u sgiliau artistig eu hunain fel cerddorion. Wrth wneud hynny, mae perygl iddyn nhw ddatblygu anian cerddor (Regelski, 2012): tuedd i roi dewisiadau a gwerthoedd *cerddorol* o flaen neu yn uwch nag opsiynau a gwerthoedd *addysgol* (Regelski, 2012, t. 21, llythrennau italig yn y gwreiddiol).

## *Casgliad: Gwersi o orffennol defnyddiadwy*

Mae popeth blaenorol yn awgrymu bod polisi ac ymarfer wrth asesu addasrwydd athrawon i addysgu cerddoriaeth wedi methu â chydnabod y gwahaniaeth pwysig rhwng *addysg cerddoriaeth* (y ffordd y mae unigolyn yn caffael dealltwriaeth o gerddoriaeth ac am gerddoriaeth) ac *addysg gerddorol* (sy'n ddwys iawn ac yn gallu digwydd o ganlyniad i berfformio ar offeryn) (Hoskyns, 2002). Mae angen addysgeg benodol ar y ddau gysyniad hyn, ond mae'n ymddangos yn amlwg bod y dull gweithredu ar gyfer addysg gerddorol wedi cael ei ddefnyddio yn y gorffennol ar gyfer addysg

cerddoriaeth. Er bod darpar 'arbenigwyr' cerddorol ac athrawon dosbarth yn cael eu barnu ar eu techneg gerddorol (a oedd yn cael ei mesur gan lwyddiant mewn arholiadau perfformio fel arfer, a hynny heb fod yn arwydd o'u crebwyll cerddorol o reidrwydd) yn hytrach na sgiliau cerddorol eraill, mae'n ymddangos yn annhebygol y bydd y sefyllfa hon yn newid.

Gwers hanfodol o'r gorffennol defnyddiadwy felly yw bod angen ailasesiad sylfaenol o'r graddau y mae angen sgiliau perfformio ar athro cerddoriaeth mewn ysgol gynradd. Dylid cofio ei bod yn hollol bosibl ennyn diddordeb plant mewn cerddoriaeth heb fod yn gallu canu'r piano, yn union fel y mae modd datblygu iaith ysgrifenedig plant heb fod yn nofelydd (Mills, 2009, t. 2). Nid yw hyn yn golygu nad yw cerddorion hynod gymwys yn gallu dysgu cerddoriaeth mewn ysgolion cynradd. Yn wir, mae ganddynt lawer i'w gynnig, fel athrawon unigol ac wrth weithio gyda chydweithwyr mewn ysgolion. Serch hynny, un wers sy'n gwbl glir o'r gorffennol defnyddiadwy a archwiliwyd uchod yw bod athrawon o'r fath yn brin mewn ysgolion cynradd erioed, ac y bydd hynny'n parhau.

Mae modelau amgen wedi cael eu cynnig, ond maen nhw'n cael eu hystyried mewn ffordd ynysig a chyfoes yn aml, heb fod mewn cyd-destun hanesyddol. Os am ddysgu o'r gorffennol, mae'n hanfodol bod potensial addysgegol agweddau eraill ar gerddoroldeb yn cael eu harchwilio a'u datblygu. Nid yw'r patrwm perfformio wedi llwyddo hyd yma. Efallai ei bod yn bryd derbyn bod angen i athrawon a llunwyr polisi asesu'r gallu i addysgu cerddoriaeth nid ar sail y 'sgiliau' cerddorol sydd gan athro, ond yn hytrach ar y gallu i ymateb i blant mewn modd gwybodus, artistig a cherddorol sensitif. Byddai newid o'r fath yn arbennig o amserol wrth fanteisio ar y rhyddid newydd mewn ysgolion cynradd yng Nghymru i chwalu rhwystrau rhwng meysydd pwnc ac archwilio addysgeg newydd sy'n gysylltiedig â gwahanol feysydd dysgu. Gyda hyn daw'r potensial i athrawon cynradd harneisio'r syniad o 'gysylltiadau cryf' (Donaldson, 2015, t. 68) er mwyn torri'n rhydd o faterion hyder pwnc-benodol hirhoedlog am addysgu cerddoriaeth. Drwy wneud hynny, roedd modd iddynt greu cyfleoedd i'w disgyblion brofi a deall cerddoriaeth trwy drosglwyddo (Pruitt, Ingram a Weiss, 2014) gwybodaeth a phrofiad i ac o feysydd pwnc eraill, gan ddod yn gyfrwng i newid cyd-destun gyda'r gallu i fod yn llunwyr cwricwlwm mewn partneriaeth â'u myfyrwyr (McPhail, 2016, t. 1163). Roedd Kneen et al. (2020) yn disgrifio dulliau integredig o'r fath fel 'glud' o ddyhead ac ymrwymiad i athrawon y celfyddydau (Kneen et al., 2020, t. 272), ond yn galw hefyd am amser, adnoddau a chyfle i ddeall

natur integreiddio'r cwricwlwm a'i effaith ar wybodaeth pwnc (Kneen et al., 2020, t. 273).

Mae'r papur hwn wedi manylu ar nifer o bwyntiau trawsnewidiol ym maes addysg cerddoriaeth yng Nghymru. Ar lawer o'r pwyntiau hyn, collwyd cyfleoedd, yn rhannol neu'n llwyr, i warantu profiad eang ac ymarferol o bopeth y gall addysg cerddoriaeth ei gynnig i ddisgyblion trwy fanteisio ar addysgeg addysgu sy'n disodli'r patrwm perfformio hanesyddol. Wrth i ni gyrraedd cyffordd arall yn hanes addysg cerddoriaeth yng Nghymru, mae cyfleoedd newydd a chyffrous yn codi i ddysgu o'r gorffennol er mwyn cyfoethogi profiad disgyblion o gerddoriaeth, i godi proffil cerddoriaeth a'r celfyddydau mynegiannol yn y cwricwlwm cynradd, a grymuso athrawon cynradd i ganfod cyfleoedd newydd a pherthnasol ar gyfer addysgu cerddoriaeth yn eu hystafelloedd dosbarth.

## *Cyfeiriadau*

'A Director of Education' (1914) 'The Supply and Training of Elementary Teachers.' *The Welsh Outlook*, 1(11) (Tachwedd 1914), t. 479–81.

ACCAC (2000) *Key Stages 1 and 2 of the National Curriculum in Wales*. Caerdydd, ACCAC: 2000.

Allsobrook, D. (1987). *Music for Wales*, Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru.

Allsobrook, D. (2000). 'Music Education in Wales: The Case for Biography.' *Welsh Music History*, t. 1–10.

Dienw. (1914). 'The Educational Outlook in Wales No. II', *Welsh Outlook* (Mai 1914), Caerdydd: The Welsh Outlook Press, 200–5.

Ball, S. K. (1995). 'Education, Majorism and 'the curriculum of the dead.' P. Murphy, M. Selinger, J. Bourne ac M. Brigg (gol.), *Subject Learning in the Primary Curriculum: Issues in English, Science and Mathematics*. Llundain: Routledge, t. 35–49.

Beauchamp, G. (1995). 'National Curriculum Music (Wales): The 'Third Language?' *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 5(1), 42–54.

Beauchamp, G. (2003). 'From Hadow to Gittins: A music education framed by the people or for the people – cultural aspirations and official validation of primary school music in Wales.' *Journal of Educational Administration and History*, 35(2), 127–35.

Bwrdd Addysg (1926). *Report of the Consultative Committee on The Education of the Adolescent* [The Hadow Report], Llundain: HMSO.

Bwrdd Addysg (1933). *Educational pamphlets, No. 95 Recent Development in School Music*, Llundain: HMSO.

Bwrdd Addysg (Adran y Gymraeg) (1936). *Memorandum No.4. Suggestions for the Teaching of Music*. Llundain: HMSO.

Bwrdd Addysg (1944). *Teachers and Youth Leaders (McNair Report)*, Llundain, HMSO.

Bwrdd Addysg (1946). *Handbook of Suggestions for the Consideration of Teachers and Others Concerned in the Work of Public Elementary Schools*, Llundain: HMSO.

Bradshaw, J., Ager, R., Burge, B. a Wheater, R. (2010). *Pisa 2009: Achievement of 15-year-Olds in Wales*. Slough: NFER.

Cox, G (1999). 'Towards a Usable Past for Music Educators.' *History of Education* 28(4), 449–58.

Dent, H. (1977). *The Training of Teachers in England and Wales 1800–1975*, Llundain, Hodder and Stoughton.

DES (Adran Addysg a Gwyddoniaeth) (1967). *Children and their Primary School*, Report of the Central Advisory Council for Education (England) [Plowden Report], Cyfrol 1: The Report. HMSO, Llundain.

DES (Adran Addysg a Gwyddoniaeth) (1969). *Music in Schools* – Education Pamphlet Number 27, Llundain, HMSO.

DES (Adran Addysg a Gwyddoniaeth) a CACE (Cyngor Ymgynghorol Canolog Addysg Cymru) (1967). *Primary Education in Wales*, Llundain, HMSO.

DFEE/QCA (1999). *The National Curriculum: Handbook for primary teachers in England*. Llundain: QCA.

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru:* Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: *https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf* (cyrchwyd ar 27 Awst 2022).

Gammon, V. (2006). 'Cultural Politics of the English National Curriculum for Music, 1991–1992.1.' *Journal of Educational Administration, 31(2), t.* 130–47.

Gifford, E. (1993). 'The Musical Training of Primary teachers: Old Problems, New Insights and Possible Solutions.' *British Journal of Music Education*, 10(1), 33–46.

Hoskyns, J. (2002). 'Music Education and the European Dimension.' *Teaching music*, gol. Spruce, G. Llundain, Routledge Falmer, t. 144–51.

Hughes, E. P. (1896). 'The Future of Welsh Education.' *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, Sesiwn 1894–5. Llundain, Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, t. 35–60.

Jones, G. E. (1997). *The Education of a Nation*, Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru.

Kneen, J., Breeze, T., Davies-Barnes, S., John, V. a Thayer, E. (2020). 'Curriculum integration: the challenges for primary and secondary schools in developing a new curriculum in the expressive arts.' *Curriculum Journal*, 31(2), t. 258–75.

Kneen, J., Breeze, T., Davies-Barnes, S., John, V. a Thayer, E. (2020). 'Curriculum integration: the challenges for primary and secondary schools in developing a new curriculum in the expressive arts.' *Curriculum Journal*, 31(2), t. 258–75.

Lowe, R. (1999). 'Education and National Identity.' *History of Education* 28(3), t. 231–3.

Lynch, M. (2001). 'Towards the abolition of 'payment by results': the end of school music or an opportunity for further development as reported in *School Music Review* 1892–1901?' *British Journal of Music Education*, 18(2), t. 187–93.

Lynch, M. (2010). 'Music in the training colleges of England and Wales 1872–1899: perspectives from HMI.' *British Journal of Music Education*, 27(2), t. 171–84.

Marchant Williams, T. (1901). 'The Romance of Welsh Education.' *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, Sesiwn 1901–2, t. 26–45.

Marope, M. (2013). *Reconceptualizing and Repositioning Curriculum in the 21st Century*, Genefa: IBE UNESCO. Ar gael yn: *http://www.ibe.unesco.org/sites/default/files/resources/reconceptualizing_and_repositioning.pdf* (cyrchwyd ar 27 Awst 2022).

Marope, M., Griffin, P. a Gallagher, C. (2017). *Future Competences and the Future of Curriculum*, Genefa: IBE UNESCO. Ar gael yn: *http://www.ibe.unesco.org/ sites/default/files/resources/future_competences_and_the_future_of_curriculum.pdf* (cyrchwyd ar 27 Awst 2022).

McPhail, G. J. (2016). 'Music on the move: methodological applications of Bernstein's concepts in a secondary school music context.' *British Journal of Sociology of Education*, 37(8), t. 1147–66.

Mills, J. (1989). 'The generalist primary teacher of Music: a problem of confidence.' *British Journal of Music Education*, 6(2), t. 125–38.

Mills, J. (2005). *Music in the school*. Caergrawnt: Cambridge University Press.

Mills, J. (2009). *Music in the Primary school*, 3ydd argraffiad. Caergrawnt: Cambridge University Press.

Y Weinyddiaeth Addysg (1945). *A Guide to the Educational System of England and Wales*, Llundain: HMSO.

Y Weinyddiaeth Addysg a CACE (Cyngor Ymgynghorol Canolog Addysg Cymru) (1953). *Music in the schools of Wales*. Adroddiad Cyngor Ymgynghorol Canolog Addysg Cymru, Llundain: HMSO.

Y Weinyddiaeth Addysg (1960). *Music in Schools: Pamphlet No. 27*. Llundain: HMSO.

OECD (2018). *The Future of Education and Skills: Education 2030*. Ar gael yn: *https://www.oecd.org/education/2030/E2030%20Position%20Paper%20 (05.04.2018).pdf* (cyrchwyd ar 27 Awst 2022).

Pitts, S. (2000). *A Century of Change in Music Education: Historical Perspectives on Contemporary Practice in British Secondary School Music*, Aldershot: Ashgate.

Priestley, M. a Biesta, G. (2013). *Reinventing the Curriculum: New Trends in Curriculum Policy and Practice*. Llundain: Bloomsbury Publishing Plc.

Pruitt, L., Ingram, D. a Weiss, C. (2014). 'Found in Translation: Interdisciplinary Arts Integration in Project AIM.' *Journal for Learning through the Arts: A Research*

*Journal on Arts Integration in Schools and Communities*, 10(1). Ar gael yn *https://files.eric.ed.gov/fulltext/EJ1050606.pdf* (cyrchwyd ar 29 Awst 2022).

Rainbow, B. (1989). 'Freedom and its Price.' *British Journal of Music Education*, 6(2), t. 193–203.

Rainbow. B. (1967). *The Land Without Music*, Llundain: Novello and Co. Ltd.

Rainbow, B., gyda Cox, G. (2006). *Music In Educational Thought and Practice*. Aberystwyth: Boethius Press.

Regelski, T. A. (2012). 'Musicianism and the ethics of school music.' *Action, Criticism & Theory for Music Education*, 11(1), t. 7–42.

Rich, R. (1933). *The Training of Teachers in England and Wales during the Nineteenth Century*, Caergrawnt: University Press.

Roberts, L. J. (1920). *The Outlook for Music in Wales*, Caerdydd: The Welsh Outlook Press, 7(3) (Mawrth), 62–4.

S. H. W. (1919). 'Welsh Education in Danger.' *The Welsh Outlook*, 7(7), t. 20–1.

School Music Review (1900). 'Abolition of the Special School Music Grant in England and Wales.' *School Music Review*, 8(95) (Ebrill), 197–200.

Scruton, R. (1991). 'Rock around the classroom.' *Sunday Telegraph*, 10 Chwefror 1991, t. 19.

Simpson, K. (1962). 'The Professional Training of music Teachers in England and Wales', yn Grant, W. (gol.), *Music in Education*, trafodion 14eg Symposiwm Cymdeithas Ymchwil Colston a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Bryste, 2-5 Ebrill 1962. Llundain: Butterworths, t. 162–71.

Smith, I. (1992). 'The Welsh play their own tune.' *The Times*, 24 Chwefror 1992, t. 8.

Swanwick, K. (1979). *A Basis for Music Education*. Windsor: NFER-Nelson.

Swanwick, K. (1988). *Music, mind and education*. Llundain: Routledge.

Swanwick, K. (1992). *Music education and the National Curriculum*. Llundain: Tufnell Press.

Thomas J. D. (1990a). 'Victorian Beginnings', yn Thomas, J. B. (gol.), *British Universities & Teacher Education: A Century of Change*, Llundain: The Falmer Press, t. 1–18.

Thomas J. D. (1990b). 'The Area Training Organization', yn Thomas, J. B. (gol.), *British Universities & Teacher Education: A Century of Change*, Llundain: The Falmer Press, t. 39–57.

Waldow, F. (2009). 'What PISA did and did not do. Germany after the "PISAshock".' *European Educational Research Journal*, 8, 476–83.

Walford Davies, H. (1923). 'Our Mother-tongue; a Musical Policy for Wales.' *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, Sesiwn 121–2. Llundain, Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion.

Walford Davies, H. (1926). *The Musical Outlook in Wales*, Caerdydd: The Welsh Outlook Press.

Walters, I. R., (1948). 'Music and Education', yn P. Crossley-Holland (gol.), *Music in Wales*, Llundain: Hinrichsen Edition Ltd, t. 75–85.

Ward, S. (1993). 'From the national Song Book to the National Curriculum', yn Glover, J. a Ward, S. (gol.), *Teaching Music in the Primary School*. Llundain: Cassell, t. 19–45.

Watson, F. W. (1923). 'The Significance of the 19th Century Educational Progress: The Place of Sir James Kay-Shuttleworth in the Developments.' *The Welsh Outlook*, 10(4), (Ebrill), t. 109–11.

Adran Gymraeg y Weinyddiaeth Addysg (1948). *Pamphlet No. 2: Education in Wales 1847–1947*, Llundain: HMSO.

Llywodraeth Cymru (2015). *Pioneer Schools*. Ar gael yn: *https://dera.ioe.ac.uk/23418/2/150630-pioneer-schools-e_Redacted.pdf (cyrchwyd ar 27 Awst 2022).*

Llywodraeth Cymru (2020). *Maes Dysgu a Phrofiad: Y Celfyddydau Mynegiannol*. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-celfyddydau-mynegiannol (cyrchwyd ar 27 Chwefror 2022).

Y Swyddfa Gymreig (1971). *Welsh Education Survey No. 1: Music*, Caerdydd: Y Swyddfa Gymreig.

Wheater, R., Ager, R., Burge, B. a Sizmur, J. (2013). 'Achievements of 15-YearOlds in Wales: Pisa 2012 National Report.' Slough: NFER.

Papur Gwyn (1972). *Education: A Framework for Expansion, Presented to Parliament by the Secretary of State for Education and Science* (Rhagfyr), Llundain: HMSO.

Williams, G. P. (1920). 'The Outlook in Welsh Education.' *The Welsh Outlook*, 7(3), (Mawrth), t. 60–2.